# Ein Cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad (EDI)

## Amcanion, blaenoriaethau a gweithredoedd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad NMC 2022–2025

**Rydym yn glir am ein cyfrifoldeb i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad ym mhopeth rydym yn ei wneud fel rheoleiddiwr ac fel cyflogwr. Rydym yn uchelgeisiol ynglŷn â'r hyn y gallwn ei gyflawni i hyrwyddo arfer gorau mewn cydraddoldeb, gan weithio â'n partneriaid a'r sector ehangach.**

Mae'n cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn amlinellu'r gweithredoedd y byddwn yn eu cymryd i ddarparu profiadau a chanlyniadau tecach i'r bobl sy'n gweithio i ni a'r swyddogion proffesiynol sydd wedi'u cofrestru â ni, yn ogystal â'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a phawb sy'n rhyngweithio â'n gweithwyr proffesiynol a'n cydweithwyr.

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni newid mesuradwy yn y tair blynedd nesaf. Bydd hyn yn ein lleoli i sefydlu arfer gorau ystyriaethau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn ein strategaeth Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nesaf ar gyfer 2025 a thu hwnt.

nmc Together *in practice*

### Sut y gwnaethom ddatblygu'r gweithredoedd hyn

Mae'r blaenoriaethau a'r gweithredoedd a amlinellir yn y cynllun hwn wedi cael eu ffurfio gan ein cyfrifoldebau cyfreithiol, ein data a thystiolaeth, gwybodaeth gan ein swyddogion proffesiynol, partneriaid a chydweithwyr NMC a materion ehangach ar draws y sector gofal iechyd.

# Ein hamcanion, blaenoriaethau a gweithredoedd Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chnyhwysiad

**Mae ein Bwrdd Gweithredol a'n Cyngor wedi cytuno ar y camau y mae angen i ni eu cymryd i wneud cynnydd cynaliadwy dros y tair blynedd nesaf. Isod mae'r deg thema blaenoriaeth ar gyfer ein gwaith EDI. Byddwn yn:**

1. Cymryd ymagwedd fwy soffisitigedig at gasglu a defnyddio data Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad
2. Dysgu o dystiolaeth Cydraddoldeb Amrywiaeth a Chynhwysiad i greu ymyriadau wedi'u targedu
3. Cydgynhyrchu atebion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad trwygydweithio â phartneriaid gwybodus, amrywiol allanol
4. Gwella cymhwyster Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad ac atebolrwydd ein harweinyddion
5. Gwella gallu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad pob cydweithiwr
6. Mapio a gwella gwneud penderfyniadau gwybodus am Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad
7. Mynd i'r afael â thystiolaeth o wahaniaethu neu rwystrau yn ein prosesau
8. Defnyddio'n dylanwad i gynorthwyo atal a lleihau anghydraddoldebau iechyd
9. Cryfhau ein llywodraethiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad
10. Defnyddio diwygio rheoleiddiol fel cerbyd i sefydlu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad yn ein strwythurau a ffyrdd o weithio